Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS A PHRIF GWNSTABL HEDDLU DYFED-POWYS

## ARCHWILIAD O GYFRIFON 2024/25

HYSBYSIR DRWY HYN O DAN Adrannau 29, 30 a 31 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:

1. 1af o Fedi 2025 tan 26ain o Fedi 2025 yn gynwysedig, rhwng 10.00y.b. a 4.00y.h. o ddydd Llun i ddydd Gwener, gall unrhyw un sydd â diddordeb, ar ôl gwneud cais i'r Prif Weithredwr, ddarllen a gwneud copïau o gyfrifon y sefydliadau a enwyd uchod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31ain o Fawrth 2025, ynghyd â phob llyfr, gweithred, cytundeb, bil, taleb a derbynneb ym Mhencadlys yr Heddlu.

2. Am 9.30y.b. ar 29ain o Fedi 2025, neu ar ôl hynny, bydd yr Archwilydd Cyffredinol, Mr Adrian Crompton, 1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ, ar gais unrhyw etholwr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hi, yn rhoi cyfle i'w holi am y cyfrifon, a gall unrhyw etholwr felly neu ei gynrychiolydd/chynrychiolydd gyfarfod â'r Archwilydd yn y Pencadlys Heddlu a enwyd a chyflwyno gwrthwynebiad i unrhyw ran o'r cyfrifon.

3. Nid yw'n bosibl gwrthwynebu ar ran yr etholwr os nad yw'r Archwilydd Cyffredinol, cyn hynny, wedi derbyn hysbysiad ysgrifenedig o'r gwrthwynebiad arfaethedig, ac ar ba sail y gwneir hynny. Dylid anfon copi o'r hysbysiad i'r rhai sydd wedi arwyddo isod yn y cyfeiriad a roddwyd.

**Dyddiedig y diwrnod 19eg Mai 2025**

**Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

**Dr Richard Lewis, Prif Gwnstabl**

**Pencadlys yr Heddlu, Llangynnwr, Caerfyrddin SA31 2PF**